**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 19 Hydref 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A Anthony | R Francis-Davies | L S Gibbard |
| H J Gwilliam | D H Hopkins | E J King |
| A S Lewis | R V Smith | A H Stevens |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): P M Black

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson

---

## 51. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 60 "Penodiadau Llywodraethwyr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.
2) Datganodd y Cynghorydd E J King gysylltiad personal a rhagfarnol â chofnod 60 “Penodiadau Llywodraethwyr Awdurdod Lleol” a gadawon y cyfarfod cyn ei ystyried.
3) Datganodd y Cynghorwyr R Francis-Davies, A S Lewis a R C Stewart gysylltiad personol â chofnod 60 “Penodiadau Llywodraethwyr Awdurdod Lleol”.

## 52. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023.

## 53. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 54. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 55. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 56. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Proses Cau Prosiect Oracle a Newid i Fodel Gweithredu Newydd. (Llafar)

Cyflwynodd y Cynghorydd P M Black yr adborth craffu cyn penderfynu.

Penderfynwyd ar y canlynol:

1) Nodi cynnwys yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

## 57. Proses Cau Prosiect Oracle a Newid i Fodel Gweithredu Newydd.*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau ddiweddariad ar ddiwedd gweithrediad y system Oracle Fusion. Mae'r system bellach yn fyw felly bydd y prosiect yn cau cyn bo hir ac yn trosglwyddo i'r model gweithredu Oracle newydd cyn bo hir.

**Penderfynwyd:**

1) cymeradwyo'r gyllideb wrth gefn o £500,000 i'r prosiect aros yn y Gronfa Oracle Wrth Gefn a glustnodwyd, i'w defnyddio ar gyfer y ceisiadau newid sydd ar ddod gan wasanaethau ac unrhyw gostau trwydded ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn dilyn adolygiad.

2) nodi'r gweithgareddau Oracle sy'n trosglwyddo o'r prosiect i'r model gweithredu parhaol newydd.

## 58. Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (CGANLl) ar gyfer Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cefnogaeth y Cabinet o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol drafft ar gyfer Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (CGANLl) ar gyfer Abertawe a nodi ei bwysigrwydd fel fframwaith partneriaeth hollgynhwysol i fynd ati i Adfer Natur.

## 59. Cynllun Rheoli Cyrchfannau Abertawe 2023-2026.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth y Cynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC) 2023-2026 ar gyfer Abertawe.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Cynllun Rheoli Cyrchfannau Abertawe ar gyfer y cyfnod 2023-2026.

## 60. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu:

| | |
|---|---|
| 1. Ysgol Gynradd y Gors | Y Cynghorydd Elliot King |
| 2. Ysgol Gynradd Grange | Mr Mark Child |
| 3. Ysgol Gynradd Pontlliw | Mr David Mathias |
| 4. Ysgol Gynradd Seaview | Mrs Sue James |
| 5. Ysgol Gynradd San Helen | Mrs Susan Davey |
| 6. Ysgol Gynradd y Garreg Wen | Mrs Charlotte Stillwell |
| 7. YGG Tan-y-lan | Y Parchedig Hugh Lervy |
| 8. YGG Tirdeunaw | Mrs Jodie Jones |
| 9. Ysgol Gyfun Treforys | Mr Paul Relf<br>Y Cynghorydd Ceri Evans |

## 61. Gwaredu Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Cyflwynodd Aelodau’r Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth a Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo, mewn egwyddor, drosglwyddo asedau cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden, gan gynnwys unrhyw dir hamdden ac adeiladau cysylltiedig, i sefydliadau, clybiau a chymdeithasau cymunedol yn unol â Pholisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol y cyngor, am bris llai na'r gorau er mwyn galluogi buddsoddiad, gwelliant a chynaliadwyedd tymor hir

**Penderfynwyd:**

1) cymeradwyo'r trosglwyddiadau arfaethedig o'r lleiniau a restrir yn 2.4 -Tabl 1 dan Bolisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Cyngor 2021 mewn egwyddor.

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd gymeradwyo prydlesi hir am gyfnodau priodol yn unol â'r egwyddorion a nodwyd ym mharagraff 2.3, (mewn perthynas â'r lleiniau a restrir yn Adran 2.4 - Tabl 1) i'r lesddalwyr arfaethedig am y rhesymau arfaethedig fel y nodir yn y tabl, ar yr amod bod Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo wedi ystyried pob un o'r trosglwyddiadau arfaethedig dan Reolau Gweithdrefnau Gwerthu a Phrynu Tir y cyngor a'i fod yn argymell cymeradwyo pob trosglwyddiad. Cymeradwyo'r prydlesi am bris llai na'r gorau yn unol â Pholisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol y cyngor

3) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr perthnasol mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Eiddo ac Aelod o'r Cabinet benderfynu ar y llwybr adrodd priodol i ystyried yn llawn unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir drwy'r Hysbysiad Gwaredu Mannau Agored, yn unol ag adran 6 o'r adroddiad hwn.

4) Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Eiddo drafod a phenderfynu ar delerau'r prydlesi arfaethedig (ac unrhyw Weithredoedd Amrywio angenrheidiol wedi hynny) a dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol gwblhau'r ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol i amddiffyn buddiannau'r cyngor.

## 62. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1af 2023/24.

Adroddodd y Swyddog Adran 151 am fonitro cyllidebau refeniw a chyfalaf 2023/24 yn ariannol, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd:**

1) nodi'r sylwadau a'r amrywiadau, gan gynnwys yr ansicrwydd materol uwch, a nodwyd yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

2) cymeradwyo'r trosglwyddiadau a'r defnydd o'r gronfa wrth gefn fel y nodir yn 3.2 a'r ddarpariaeth chwyddiant fel y nodir yn 4.3 yn amodol ar unrhyw gyngor pellach gan y Swyddog A.151 yn ystod y flwyddyn.

3) Mae angen i bob Cyfarwyddwr barhau i leihau gwariant gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod bod y gyllideb yn gyffredinol yn cael ei chydbwyso ar hyn o bryd dim ond drwy ddibynnu ar ad-daliad tebygol yn y dyfodol (ond ymhell o fod yn gwbl sicr) gan Lywodraeth Cymru, cyllidebau wrth gefn a ddelir yn ganolog ac atgyfnerthu cronfeydd wrth gefn.

4) Nodi'r gorwario dangosol ym mharagraff 6.1 yr adroddiad gyda chamau gweithredu pellach i'w cadarnhau yn y chwarteri dilynol unwaith y bydd rhagor o wybodaeth am gost derfynol debygol y codiad cyflog yn yr arfaeth.

## 63. Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022-23.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022-23 ar gyfer Cyngor Abertawe, er gwybodaeth.

## 64. Darpariaeth Refeniw Ychwanegol ar gyfer Cynigion Parcio 2023/24.

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth a'r Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cronfeydd ychwanegol i barhau â'r cynnig parcio cyfredol (1,2,3,4,5) am gyfnod cyfyngedig hyd at 31 Mawrth 2024.

**Penderfynwyd:**

Cymeradwyo'r cronfeydd untro ychwanegol o £850,000 i barhau â'r cynnig parcio cyfredol (1,2,3,4,5) am gyfnod cyfyngedig hyd at 31 Mawrth 2024 a nodi'r risgiau i'r cynorthwywyr a amlygwyd yn benodol gan y Swyddog A151.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.14 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 19 Hydref 2023 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59 ar 24 Hydref 2023 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 25 Hydref 2023 |